


# Yr Ysgol Cemeg

**Rhaglenni Gradd**  
Israddedig 2025



CARDIFF  
UNIVERSITY

PRIFYSGOL  
CAERDYDD

# Welcome

<b>Mae croeso cynnes yma i chi</b>	<b>3</b>
<b>Dewiswch Gaerdydd</b>	<b>4</b>
<b>Lleoliadau myfyrwyr</b>	<b>6</b>
<b>Ein rhaglenni gradd</b>	<b>10</b>
<b>Profiad myfyrwyr</b>	<b>12</b>
<b>Astudio gyda ni</b>	<b>14</b>
<b>Gyrfaoedd mewn cemeg</b>	<b>15</b>
<b>Ceisiadau</b>	<b>16</b>

Roedd **94%** o raddedigion mewn cyflogaeth, a/neu astudiaethau pellach, neu yn gwneud gweithgareddau eraill megis teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.\*

\*Yn seiliedig ar raddedigion amser llawn a rhan-amser sy'n dod o'r DU ar bob lefel astudio.

Ffynhonnell: Canlyniadau Arolwg Hynt Graddedigion 2020/21 a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Hawlfraint Jisc 2023. Ni all Jisc dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gasgliadau neu benderfyniadau a wneir gan drydydd partion ar sail ei ddata.

**Wedi'i achredu gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.**

(The Times & The Sunday Times Good University Guide 2023)

**12fed yn y DU am effaith ein hymchwil.**

Ffynhonnell: Dadansoddiad THE (Times Higher Education) o REF (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil) 2021



# Mae croeso cynnes yma i chi

Rwy'n falch iawn eich bod yn ystyried astudio yn yr Ysgol Cemeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ystod eich amser gyda ni, byddwn yn gwneud popeth y gallwn i'ch helpu i wireddu eich potensial, gan roi gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau i chi ar gyfer gyrfa a dyfodol gwerth chweil.

Mae ein myfyrwyr a'n staff yn dod o'r DU, o Ewrop a thramor i greu cymuned amrywiol a chlôs.

Mae cynaliadwyedd yn uchel ar ein hagenda, a adlewyrchir gan ein gwaith ymchwil nodedig i gatalysis ar gyfer dyfodol gwyrddach. Mae ein staff addysgu wrthi'n ymchwilio i ffyrdd o fynd i'r afael â heriau gwyddonol allweddol, o ynni cynaliadwy i ddatblygu cynhyrchion fferyllol newydd. Mae eu profiad yn ymdrin â holl feysydd cemeg a'i rhyngwynebaw, gyda disgyblaethau a thechnolegau gwyddonol eraill.

Mae'r arbenigedd hwn wedi'i gynnwys yn ein rhaglenni gradd, gan roi profiad dysgu arloesol mewn gwyddoniaeth foleciwlaidd. Rwy'n gobeithio y bydd eich profiad yn y brifysgol yn eich ysgogi'n ddeallusol, yn bleserus ac o fudd mawr i'ch gyrfa yn y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at gael eich cais ac i chi ddod yn rhan o'n cymuned.

**Yr Athro Deborah Kays**  
Pennaeth yr Ysgol



**Roedd y cwrs yn addas iawn i mi o ran yr agweddau ar gemeg y gallwch chi eu harchwilio – gallwch ddewis llawer o fodiwlau dewisol gwahanol a theilwra'r radd i'ch dant.**

Roeddwn i eisiau astudio mewn prifysgol Grŵp Russell sy'n gwneud llawer o waith ymchwil, ac mae Caerdydd yn ddinas anhygoel gyda llawer i'w wneud.”

**Dan**, myfyriwr Cemeg”

# Dewiswch Gaerdydd

Dyma ein pum prif reswm dros astudio yn yr Ysgol Cemeg:

## 1. Cyrsiau hyblyg

Mae blynyddoedd un a dau o'n graddau BSc ac MChem Cemeg yn rhannu cwricwlwm cyffredin, gan roi'r opsiwn i chi newid rhwng rhaglenni hyd yn oed ar ôl i chi gofrestru. Gallwch hefyd ychwanegu Blwyddyn ar Leoliad Dramor neu Flwyddyn mewn Diwydiant at y cynlluniau BSc neu MChem ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf. Mae hyn yn golygu y gallwch ddewis y llwybr cywir i chi ar ôl i chi gael cyfle i ymgartrefu.

## 2. Ymchwil o safon fyd-eang

Fel un o Brifysgolion Grŵp Russell, mae ein haddysgu'n seiliedig ar ein gwaith ymchwil rhagorol.

Rydym yn y 12fed safle yn y DU am effaith ein hymchwil wrth fynd i'r afael â heriau mawr sy'n wynebu cymdeithas, yr economi a'n hamgylchedd gan ddadansoddiad THE (Times Higher Education) o Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 (REF). Barnwyd bod 99% o'n cyflwyniad o safon fyd-eang neu'n rhagorol yn rhyngwladol, gan ddangos cryfder ein harbenigedd ymchwil, sydd i gyd yn bwydo i'n rhaglenni gradd.

### 3. Lleoliad, Lleoliad, Lleoliad

Mae ein hysgol wedi'i lleoli yn y Prif Adeilad hanesyddol, daflad carreg i ffwrdd o Undeb y Myfyrwyr a Chanolfan Bywyd y Myfyrwyr, lle ceuoch hyd i'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr. Rydym yn daith gerdded fer o ganol dinas fywiog Caerdydd, nifer o breswylfeydd myfyrwyr y brifysgol, a'r 130 erw o Barc Bute.



### 4. Buddsoddi mewn cyfleusterau

Rydym wedi buddsoddi dros £14 miliwn mewn mannau addysgu a dysgu ein hysgol yn y blynyddoedd diwethaf, ac wedi gwneud gwaith uwchraddio mawr ar y labordy.

Mae ein cyfleusterau ymchwil yn cynnwys Sefydliad Catalysis Caerdydd, sydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Ymchwil Drosi newydd o'r radd flaenaf, lle mae gwyddonwyr yn gweithio gyda phartneriaid masnachol ar draws sectorau gan gynnwys meysydd ynni, deunyddiau uwch, trafndiaeth, cyfathrebu a gofal iechyd.

\* Yn seiliedig ar raddedigion amser llawn sy'n hanu o'r DU ac a oedd yn astudio ar gyfer eu gradd gyntaf. Ffynhonnell: Canlyniadau Arolwg Hynt Graddedigion 2020/21 a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Hawlfraint Jisc 2023. Ni all Jisc dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gasgliadau neu benderfyniadau a wneir gan drydydd partion ar sail ei ddata.

### 5. Rhagolygon gyrfa ardderchog

Mae popeth a wnawn yn yr Ysgol Cemeg yn ymwneud â'ch paratoi ar gyfer gyrfa lwyddiannus, a dyna pam roedd 94% o'n graddedigion mewn gwaith a/neu astudiaethau pellach neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.\*

Mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i weithio mewn ystod eang o swyddi, gan gynnwys bod yn ddatblygwr fferyllol, yn ddadansoddwr defnyddiau, yn ymchwilydd i gatalyddion ac yn dwrnai patentau.





# Lleoliadau myfyrwyr

Cewch flas ar eich gyrfa yn y dyfodol gyda blwyddyn mewn diwydiant.

Byddwch yn rhoi hwb i'ch hyfforddiant proffesiynol wrth ennill cyflog, a gall blwyddyn ar leoliad diwydiannol eich helpu i sefyll allan ymysg dorf ar ôl graddio. Mae ein graddau BSc ac MChem Cemeg ar gael gyda'r opsiwn o flwyddyn ar leoliad mewn diwydiant.

Ym Mhrifysgol Caerdydd, mae gennym gysylltiadau â dros 300 o sefydliadau ledled y byd ac mae ein myfyrwyr cemeg wedi cwblhau lleoliadau mewn sefydliadau fel Dow Chemical Company, GSK, Pfizer a Kodak.

## Sut mae'n gweithio?

Os dewiswch yr opsiwn blwyddyn mewn diwydiant, byddwch yn treulio'ch trydedd flwyddyn yn gweithio i gwmni gyda'ch gwaith ymchwil yn cael ei oruchwylio gan eich cyflogwr diwydiannol. Mae myfyrwyr ar y cynllun MChem yn astudio tri modiwl craidd trwy ddysgu o bell ochr yn ochr â'r lleoliad.

Nid oes angen i chi ymrwymo i flwyddyn mewn diwydiant tan ddechrau'r ail flwyddyn.



GSK, Cork

**“Penderfynais wneud blwyddyn mewn diwydiant oherwydd roeddwn i wir eisiau cael rhywfaint o brofiad.**

Roeddwn i'n gweithio yn GSK yn Cork, yn Iwerddon. Y peth a fwynheais fwyaf am y lleoliad oedd yr ymdeimlad o annibyniaeth a roddwyd i mi; cefais fy nhrin fel aelod o'r tîm a chefais brosiectau i'w rheoli ar fy mhen fy hun. Byddwn yn argymhell y cwrs hwn 100% i rywun sy'n ystyried lleoliad diwydiannol.

**Emma**, MChem Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant.”



# Antur fythgofiadwy trwy flwyddyn dramor.

Mae astudio dramor fel rhan o'ch gradd yn ffordd wych o ehangu eich gwybodaeth academiaidd, ymgolli mewn diwylliant arall a chaffael sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Ond, yn anad dim, mae'n ddechrau ar antur.

Mae ein partneriaethau gyda'r prifysgolion gorau yn golygu y gallwch astudio yn rhai o'r dinasoedd mwyaf eiconig ac ysbrydoledig yn y byd. Ymhlith y cyrchfannau mae Bern, Munich, Bologna a Barcelona, yn ogystal â nifer o brifysgolion ymhellach i fwrdd yn Awstralia, Hong Kong, Japan, UDA, Seland newydd a Canada.

Byddwn yn eich helpu i ddod o hyd i leoliad sy'n cyd-fynd â'ch diddordebau a byddwn yn cadw mewn cysylltiad agos â chi trwy gydol y flwyddyn.

## Sut mae'n gweithio?

Yn ystod y cwrs BSc Cemeg gyda Blwyddyn ar Leoliad Dramor, byddwch yn treulio'ch trydedd flwyddyn ar leoliad gwaith dramor, yn cwblhau prosiect o dan oruchwyliaeth aelod o staff sy'n siarad Saesneg yn narparwr y lleoliad gwaith.

Os byddwch yn dewis astudio'r cwrs BSc Cemeg gyda Blwyddyn ar Leoliad Dramor, byddwch yn treulio blwyddyn tri o'ch pedair blynedd mewn prifysgol dramor, gan roi'r cyfle i chi gael profiad o arferion gweithio a diwylliant gwlad wahanol. Byddwch yn cwblhau prosiect ymchwil naw – 12 mis a modiwl theori gorfodol ym mhob cangen o'r pwnc ar draws y ddau semester trwy ddysgu o bell.

Nid oes angen i chi ymrwymo i flwyddyn dramor tan ddechrau'r ail flwyddyn.







### **Gwnaeth fy mlwyddyn ar leoliad i mi sylweddoli bod gwyddoniaeth yn fyd-eang.**

Astudiais ym Mhrifysgol Nanjing Tech yn Tsieina yn ystod fy mlwyddyn dramor. Nanjing yw hen brifddinas Tsieina ac mae'n ddinas hardd iawn. Gweithiais ar wneud catalyddion ar gyfer electrolysis. Un o'r pethau mwyaf a ddysgais i oedd sgiliau cyfathrebu. Roedd yn rhaid i mi roi cyflwyniadau bob wythnos. Doeddwn i ddim mor gyfforddus yn gwneud hyn i ddechrau, ond po fwyaf y gwnes i ymarfer, y gorau y des i. Dysgais hefyd sut i weithio gyda phobl o wahanol ddiwylliannau, a sut i ddeall eu safbwyntiau. Mwynheais i deithio fwyaf. Roeddwn yn gallu teithio o gwmpas Tsieina ac es i Guilin, Shanghai, Shenzhen a llawer o leoedd eraill. Roedd yn braf cwrdd â'r bobl leol na fydddech chi'n cwrdd â nhw fel arall.

Rwy'n meddwl bod gennych gymaint i'w ennill o radd mewn cemeg, yn enwedig wrth fynd ar flwyddyn dramor. Roeddwn i wrth fy modd gyda fy lleoliad gymaint fel fy mod i eisoes wedi prynu tocyn yn ôl i Nanjing, ac rwy'n gobeithio gwneud PhD yn Tsieina."

**Nancy**, MChem Cemeg gyda Blwyddyn ar Leoliad Gwaith Dramor



### **Pan ddes i yn ôl ar gyfer fy mlwyddyn olaf, roeddwn yn gallu gwneud fy ngwaith labordy yn llawer mwy effeithiol.**

Roedd Baltimore yn ddinas anhygoel, ac es i ar deithiau i Efrog Newydd, Boston, Washington a Pittsburgh hefyd. Dewisais y cwrs hwn gan fy mod wedi bod eisieu gwneud blwyddyn dramor ers i mi fod ym Mlwyddyn 13 ac yn gwybod fy mod eisieu mynd i wlad Saesneg ei hiaith.


Roedd fy mhrosiect yn cynnwys dyfeisio moleciwl a oedd yn atalydd, yn seiliedig ar lenyddiaeth o ddwy ffynhonnell wahanol. Fe wnaeth y staff fy helpu gyda biocemeg a sgiliau labordy, felly, pan ddes i'n ôl i Gaerdydd, roeddwn i'n gallu gwneud fy ngwaith labordy yn llawer mwy effeithiol ac effeithlon. Mwynheais gwrdd â phobl newydd mewn maes gwyddonol mewn gwlad wahanol. Byddwn yn argymhell y cwrs hwn 100% gan ei fod yn rhoi gwybodaeth wych i chi am sefydliad academiaidd a hefyd llawer o gyfle i fynd allan i archwilio pethau y tu allan i wyddoniaeth."

**Gregory**, BSc Cemeg gyda Blwyddyn ar Leoliad Dramor



## **Treuliwch eich haf ar leoliad**

Drwy'r tîm Cyfleoedd Byd-eang, cewch ddewis o blith amrywiaeth o leoliadau tymor byr i astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor. Mae'r rhaglenni'n para o leiaf bythefnos yn ystod gwyliau'r haf fel arfer ac maent yn ddelfrydol os na chewch gyfle i astudio dramor fel rhan o'ch gradd er bod profiad rhyngwladol yn apelio atoch chi.



# Ein rhaglenni gradd



## Cemeg BSc

Cod UCAS: F100

Yn rhan o fywyd bob dydd, mae cemeg yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau mwyaf dybryd y byd - o dechnolegau gwyrdd, i ddatblygu triniaethau newydd i'n cadw'n iach. Mae'r cwrs tair blynedd hyblyg hwn yn rhoi cyflwyniad eang i gemeg, gyda'r cyfle i arbenigo yn y meysydd y mae gennych ddi-ddordeb ynddynt trwy fodiwlau dewisol a phrosiect ymchwil.

Byddwch yn astudio pynciau craidd ar gemeg ddadansoddol, ffisegol, organig, anorganig a chyflwr solet, gyda'r cyfle i gymryd ystod eang o fodiwlau dewisol, o gemeg gwyrdd a chynaliadwy a datblygu cyffuriau, i gatalysis heterogenaidd a biosynthesis peirianneg.

Yn ystod y drydedd flwyddyn, yn ogystal â dysgu pynciau craidd, yn semester y gwanwyn byddwch yn canolbwyntio ar brosiect ymchwil yn eich maes cemeg dewisol, dan oruchwyliaeth arbenigwr yn y maes.

Gan fod ein BSc Cemeg yn rhannu cwricwlwm cyffredin gyda'r MChem am y ddwy flynedd gyntaf, gallwch drosglwyddo o'r BSc i MChem (yn amodol ar gyflawniad academaidd ym mlwyddyn dau) ar ddechrau blwyddyn tri.

Mae opsiwn hefyd o ychwanegu blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn ar leoliad dramor, cyn belled â'ch bod yn mynegi eich diddordeb erbyn dechrau blwyddyn dau.

**Wedi'i achredu gan Gymdeithas Frenhinol Cemeg**

## Cemeg Feddyginiaethol BSc

Cod UCAS: F150

Mae cemegwyr meddyginiaethol ar flaen y gad ym maes meddygaeth fodern, gan ddatblygu therapïau newydd i atal a thrin heintiau a chlefydau. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar agweddau biolegol cemeg, gan roi'r sgiliau i chi ymuno â'r maes cyffrous hwn

Byddwch yn cael sylfaen gadarn mewn pynciau cemeg craidd yn ogystal ag arbenigo mewn biocemeg, microbiolog a dylunio cyffuriau.

Bydd eich profiad yn y labordy yn canolbwyntio ar synthesis a phrofi cyffuriau, gan ddatblygu eich sgiliau ymchwil, mathemategol a chyfrifiadurol. Byddwch hefyd yn dysgu am arweinyddiaeth, rheolaeth a chynllunio prosiectau.

Yn y flwyddyn olaf, cewch gyfle i arbenigo mewn maes o'ch diddordeb trwy brosiect ymchwil, dan oruchwyliaeth arbenigwr yn y maes.

## Cemeg MChem

Cod UCAS: F103

Mae'r radd pedair blynedd hon yn rhoi sylfaen gadarn i chi yn hanfodion cemeg gyda phwyslais ar ymchwil.

Bydd dwy flynedd gyntaf y cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu eich dealltwriaeth o sut mae cemeg yn llywio ein byd. Yn ystod y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn, mae mwy o bwyslais ar ddadansoddi, synthesis a datrys problemau.

Yn y bedwaredd flwyddyn, byddwch yn ymgymryd â phrosiect ymchwil estynedig, yn un o'n grwpiau ymchwil academaidd. Byddwch hefyd yn cael profiad ymarferol hanfodol yn y labordy, gan wella eich sgiliau ymchwil, mathemategol a chyfrifiadurol. Nid oes unrhyw fodiwlau theori gorfodol ym mlwyddyn pedwar, sy'n eich galluogi i arbenigo yn eich maes diddordeb.

Gallwch ddewis ychwanegu Blwyddyn mewn Diwydiant neu Flwyddyn ar Leoliad Dramor, ar yr amod eich bod yn mynegi eich diddordeb erbyn dechrau blwyddyn dau.

**Wedi'i achredu gan Gymdeithas Frenhinol Cemeg**



**Evch i dudalennau gwe'r cwrs i gael rhagor o wybodaeth am y ddwy raglen gan gynnwys gwybodaeth am y modiwlau.**



# Profiad myfyrwyr

Mae sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael y profiad gorau posibl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Ar ddechrau eich astudiaethau, byddwch yn cael tiwtor personol a fydd yn brif gyswllt ar gyfer unrhyw gymorth academaidd a bugeiliol. Byddwch yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu eich cynnydd academaidd ac unrhyw beth arall y gallech fod angen cymorth ag ef, a gallant hefyd helpu gyda'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae ein mentoriaid myfyrwyr yn helpu ein myfyrwyr blwyddyn gyntaf i addasu i fywyd yn y brifysgol, gan rannu cyngor ar unrhyw beth, o ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu i fyw oddi cartref.

Mae gennym hefyd banel staff myfyrwyr gweithgar sy'n rhan annatod o lywio profiad myfyrwyr yn ein hysgol.



**“Roeddwn i wrth fy modd â'r adeilad, roeddwn i'n meddwl bod y labordai'n cŵl iawn, roeddwn i'n meddwl bod yr athrawon yn garedig iawn, yn groesawgar iawn ac yn barod iawn i helpu.**

Clywais lawer am fywyd myfyrwyr yma a sut mae popeth mor hwyl ac mae'n berffaith i mi. Roeddwn i wrth fy modd bod yma a mwynheais bedair blynedd fy ngradd yn fawr iawn.”

**Fatma**, myfyriwr Cemeg MChem



**Mae Dr Emma Richards,** ein Cyfarwyddwr Derbyn a Recriwtio, yn siarad am gymorth i fyfyrwyr yn ein hysgol.



# Astudio gyda ni

Ein nod yw cynnig amgylchedd dysgu rhagorol ac mae ein graddau israddedig yn adlewyrchu ein cryfderau a'n diddordebau ymchwil presennol. Mae prosiectau yn y flwyddyn olaf yn gwbl integredig yn ein grwpiau ymchwil.

## Dulliau addysgu

Byddwch yn cael eich addysgu trwy gyfres o ddarlithoedd, tiwtorialau grŵp bach, gweithdai a dosbarthiadau ymarferol yn y labordy. Mae'r tiwtorialau grŵp bach yn eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu, wrth ymarfer, trafod a dadansoddi deunydd darlithoedd. Mae tri aelod o staff academaidd yn arbenigo ym meysydd cemeg organig, anorganig a ffisegol i arwain y sesiynau i bob grŵp tiwtorial.

Ym mlwyddyn un, mae eich gwaith labordy yn canolbwyntio ar dechnegau sylfaenol a chofnodi arsylwadau syml ond cywir, gan symud ymlaen tuag at arbrofion sylweddol sy'n gofyn am gynnllunio, dadansoddi a dehongli canlyniadau'n ofalus, yn ogystal ag adroddiadau safonol proffesiynol erbyn diwedd eich gradd.

Rydym yn annog y defnydd o gyfrifiaduron yn ein rhaglenni gradd cemeg yn gryf, a byddwn yn eich addysgu chi sut i ddefnyddio'r feddalwedd ddiweddaraf a phecynnau modelu moleciwlaidd.

## Dull Asesu

Cewch eich asesu trwy gyfuniad o arholiadau a gwaith cwrs sy'n cynnwys gwaith ymarferol, gweithdai, a phrosiect ymchwil. Yn ogystal â'r asesiadau ffurfiol hyn, bydd adborth a chyngor ar eich adroddiadau ymarferol a gwaith cwrs arall yn eich helpu i symud ymlaen trwy'ch cwrs. Mae dosbarthiadau terfynol y radd yn seiliedig ar ganlyniadau pob blwyddyn heblaw am y flwyddyn gyntaf, a chânt eu pwysoli fel bod yr asesiadau yn eich blwyddyn olaf yn gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol at ganlyniad eich gradd.

## Prosiect ymchwil

Mae gan bob un o'n cyrsiau elfen gref o ymchwil annibynnol, o dan oruchwyliaeth.

Ym mlwyddyn olaf y graddau BSc, mae ein myfyrwyr yn ymgymryd â phrosiect ymchwil mewn maes o ddiddordeb, dan oruchwyliaeth arbenigwr yn y maes.

Mae ein myfyrwyr MChem Cemeg yn ymuno â grŵp ymchwil i gyflawni eu prosiect ymchwil estynedig, sydd, yn y gorffennol, wedi arwain at rai o'n hisraddedigion yn cyd-ysgrifennu papurau a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion academaidd.

## Cyfleusterau

Wedi'i lleoli yn y Prif Adeilad hanesyddol, mae ein hysgol yn edrych yn draddodiadol o'r tu allan, ond mae ein mannau addysgu y tu mewn yn hynod fodern. Rydym wedi trawsnewid ein mannau dysgu ac mae ein labordai wedi'u huwchraddio gyda buddsoddiad sylweddol. Mae'r Prif Adeilad yn gartref i'r Llyfrgell Wyddoniaeth a chaffi Green Shoots, a gyferbyn â chanolfan newydd Canolfan Bywyd y Myfyrwyr ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau gyrfaoedd, yn ogystal ag Undeb y Myfyrwyr\*.

Mae ein cyfleusterau ymchwil hefyd yn cynnwys Sefydliad Catalysis Caerdydd sydd wedi'i leoli yn y Ganolfan Ymchwil Drosi o'r radd flaenaf, sy'n dod â'n gwyddonwyr academaidd ac ymchwil ynghyd â diwydiant i ddatrys heriau byd-eang cymhleth.

Mae'r cyfleusterau ymchwil eraill yn cynnwys::

- Sbectrometreg màs a chromatograffeg
- Cyseiniant magnetig niwclear
- Cyseinnedd paramagnetig electron
- Diffreithiant pelydr X
- Sbectrosgopeg cyffredinol (e.e. UV-Vis, Is-goch) a nodweddu cyflwr solet
- Cyfrifiadura perfformiad uchel
- Gweithdai technegol
- Cyfleuster dadansoddi arwyneb XPS

\*Daeth Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn 2il yn y DU gan Wobrau WhatUni Student Choice 2022 ar gyfer yr undeb myfyrwyr gorau

# Gyrfaoedd mewn cemeg

Mae cemegwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â heriau mwyaf dybryd cymdeithas - o fiodanwydd a dŵr glân i ddatblygu cynhyrchion fferyllol newydd. Mae gradd mewn cemeg yn agor y drws i ystod eang o yrfaeod y tu mewn i'r labordy a'r tu allan iddo.

Mae amrywiaeth eang o gyflogwyr yn awyddus i gael ein graddedigion, gan eu bod yn chwilio am bobl sydd â sgiliau cyfathrebu ardderchog, profiad mewn amgylchedd labordy, llythrennedd TG a hyder i ddadansoddi gwybodaeth amrywiol.

Byddwch yn gallu defnyddio eich gwybodaeth i ddilyn ystod o yrfaeod ymchwil cyffrous mewn meysydd fel dod o hyd i feddyginiaethau a brechlynnau newydd, gwella dealltwriaeth o faterion amgylcheddol a datblygu cynhyrchion a

deunyddiau cemegol newydd.

Gall y sgiliau sy'n cael eu datblygu yn y labordy hefyd eich helpu i sicrhau rôl yn y diwydiant gweithgynhyrchu, lle mae'r pwyslais ar hyn o bryd ar nodi prosesau gwyrddach, rhatach a chyflymach.

Fodd bynnag, nid yw gyrfaoedd ym maes cemeg yn dechrau ac yn gorffen yn y labordy. Mae'r hyfforddiant rhesymegol ac ymarferol y byddwch chi'n ei ddatblygu trwy'ch gradd yn cael ei werthfawrogi'n fawr mewn meysydd fel marchnata, gwerthu, rheoli neu

gyllid. Mae newyddiaduraeth wyddonol, cyhoeddi ac addysgu i gyd yn llwybrau posibl o ran gyrfa.

## Mae gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Prifysgol Caerdydd yma i'ch helpu a'ch cefnogi. Mae'r hyn a gynigir ganddynt yn cynnwys gweithdai CV, cyngor un-i-un, sesiynau ymarfer cyfweliadau a ffeiriau gyrfaoedd gyda chyflogwyr blaenllaw.



### Rydw i nawr yn gweithio i Samsung Mobile mewn rôl strategaeth ac arloesedd.

ae cynifer o wahanol fathau o swyddi ar gael i'r rhai sydd â graddau gwyddonol. Mae'r sgiliau dadansodol rydych chi'n eu hennill trwy'r gwaith labordy a gweithio ar eich prosiect terfynol mor ddefnyddiol. Pan fyddwch chi mewn cyfweliadau, gallwch chi siarad cymaint am eich sgiliau trosglwyddadwy.

Mae'r adran gyrfaoedd yn gefnogol iawn i'ch helpu pa bynnag bryd y dymunwch gyda'ch CV, paratoi ar gyfer cyfweliad a phenderfynu beth rydych am ei wneud â'ch bywyd. Byddwch yn cael amser gwych yng Nghaerdydd ac mae hefyd yn edrych yn wych ar eich CV."

**Emily**, BSc Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant



### Rwy'n gweithio yn y diwydiant fferyllol fel gwyddonydd ymchwil a datblygu ar gyfer brand gofal iechyd Nurofen.

Yn syth ar ôl graddio, bûm yn gweithio mewn safle ymchwil a datblygu ar raddfa fach ac yna symudais ymlaen i Reckitt Benckiser, cwmni rhyngwladol mwy sy'n arbenigo mewn brandiau gofal iechyd fel Strepsils, Lemsip a Nurofen. Mae fy rôl yn ymwneud â datblygu cynnyrch, felly mae angen i mi ddeall strwythur cemegol y cyffwr a'r holl gydrannau eraill a sut maen nhw'n ymateb i'w gilydd i greu cynnyrch diogel ac effeithiol."

**Jonathan**, MChem Cemeg



# Ceisiadau

Er mwyn i ni ystyried eich derbyn i un o'n rhaglenni gradd, dylech ddefnyddio cyfleuster 'UCAS Apply' i wneud cais ar-lein ar wefan UCAS.

I wneud hynny, bydd angen i chi fewngofnodi i: [wwwucas.ac.uk/apply](http://wwwucas.ac.uk/apply)

Ar y wefan honno, cewch chi wybodaeth am sut i wneud cais ac esboniad o drefn UCAS.

## Gofynion mynediad

Arweiniad yn unig yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Edrychwch ar ein gwefan am yr wybodaeth ddiweddaraf.

**Safon Uwch:** Byddai cynigion arferol rhwng AAB a BBB, ac yn cynnwys gradd B mewn Cemeg a gradd llwyddo yn yr elfen ymarferol, lle bo'n gymwys.

Rydym hefyd yn derbyn y cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ond mae'n rhaid iddo fod yn ychwanegol at ddau bwnc Safon Uwch arall – rhaid i un ohonynt fod yn Gemeg.

**Y Fagloriaeth Ryngwladol:** Disgwylir i ymgeiswyr gyflawni 30-34 pwynt, gan gynnwys o leiaf 5 mewn Cemeg ar y Lefel Uwch.

**Erail:** Croesewir ceisiadau gan y rhai sy'n cynnig cymwysterau cyfwerth amgen a'r rhai a all fod â phrofiad perthnasol arall o waith/bywyd.

## Pynciau Penodol

Safon Uwch: Cemeg ac, yn ddelfrydol, o leiaf un pwnc gwyddonol neu fathemategol arall. Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol na Meddwl yn Feiriadol.

## Gofynion TGAU (neu gyfwerth):

- Gradd C neu radd 4 mewn Mathemateg.
- Gradd C neu radd 4 mewn Cymraeg neu Saesneg

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl arferion a gweithgareddau.

Ein nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu ac sy'n seiliedig ar werthoedd urddas, cwrteisi a pharch. Rydym yn cydnabod hawl pob person i gael ei drin yn unol â'r gwerthoedd hyn.

Rydym wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg credo), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: [www.cardiff.ac.uk/public-information/equality-and-diversity](http://www.cardiff.ac.uk/public-information/equality-and-diversity)

## Ymgeiswyr ag Anableddau / Anghenion Penodol

Gwneir pob cynnig i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ar sail teilyngdod academiaidd yn unig. Pan fydd gan ymgeiswyr ofynion penodol sy'n ymwneud ag anabledd neu gyflwr meddygol, fe'u hanogir i drafod y rhain gyda staff perthnasol er mwyn gallu gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod y Brifysgol yn darparu amgylchedd hygrych.

Yn benodol, gwahoddir ymgeiswyr i gysylltu â'r Cynghorydd Anabledd i gael gwybod am y drefn ymgeisio, cyflwyno'r cyrsiau a mynediad at yr amgylchedd ffisegol. Os bydd hi'n briodol, gellir trefnu ymweliadau anffurfiol er mwyn i ymgeiswyr allu gweld y llety a chyfarfod â'r staff academiaidd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cynghorwr Anabledd:

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4844**

Ebost: [disability@cardiff.ac.uk](mailto:disability@cardiff.ac.uk)







## Diwrnodau Agored

Cynhelir Diwrnodau Agored y Brifysgol gyfan drwy gydol y flwyddyn ac maen nhw'n rhoi cyfle i chi ymweld â phob ysgol, yn ogystal â phreswylfeydd, Undeb y Myfyrwyr a chyfleusterau chwaraeon.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan ar:

[www.caerdydd.ac.uk/opendays](http://www.caerdydd.ac.uk/opendays)

## Gohirio mynediad

Nid oes gan yr Ysgol wrthwynebiad i'r posibilrwydd i chi ohirio eich mynediad cyhyd â'ch bod yn treulio'r flwyddyn berthnasol mewn ffordd gadarnhaol a buddiol. Byddwch chi'n gwneud eich cais drwy UCAS yn y ffordd arferol, ond rhaid i'r cais i UCAS ddangos y flwyddyn y bwriadwch ddod i'r brifysgol.

## Cysylltiadau derbyn

Am wybodaeth am ymgeisio a chofrestru ar raglen MChem neu BSc, cysylltwch â:

Y Tiwtor Derbyn Myfyrwyr  
Ysgol Cemeg, Prifysgol Caerdydd  
Prif Adeilad, Plas y Parc, Caerdydd  
CF10 3AT

Ffôn: **029 2087 4023**

Ffacs: **029 2087 4030**

Ebost: **chemistry-admissions@caerdydd.ac.uk**

Web: [www.caerdydd.ac.uk/cemeg](http://www.caerdydd.ac.uk/cemeg)

## Cefnogi myfyrwyr

P'un a ydych yn defnyddio'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr neu beidio, mae'n galonogol gwybod eu bod ar gael pe bai eu hangen nhw arnoch. Dyrennir tiwtor personol i bob myfyrwr, ond mae gennym amrywiaeth o wasanaethau os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch. Megis:

- Cefnogaeth Anabledd a Dyslecsia
  - Ebost: **disability@caerdydd.ac.uk**
  - Ffôn: **+44 (0)29 2087 4844**
  - Ebost: **dyslexia@caerdydd.ac.uk**
  - Ffôn: **+44(0) 29 2087 4844**
- Y Gwasanaeth Lles a Chwrsela
  - Ebost: **wellbeingandcounselling@caerdydd.ac.uk**
  - Ffôn: **+44(0) 29 2087 4844**
- Cymorth i Fyfrwyr Rhyngwladol
  - Ebost: **iss@caerdydd.ac.uk**
  - Ffôn: **+44 (0)29 2087 6009**
- Cynllun Mentor Myfyrwyr
  - www.cardiff.ac.uk/study/student-life/student-support**

## Ffioedd dysgu a chymorth ariannol

Mae'r Brifysgol yn codi ffi flynyddol sy'n talu am yr holl ffioedd dysgu, cofrestru ac arholi, heblaw ffi ailsefyll arholiadau gan fyfyrwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Sylwch fod y ffioedd am lety ym Mhreswylfeydd y Brifysgol yn ychwanegol at hynny. Gweler y wefan ganlynol am ragor o wybodaeth:

[www.cardiff.ac.uk/fees](http://www.cardiff.ac.uk/fees)

## Ysgoloriaethau a bwrsariaethau

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan ganlynol:

[www.cardiff.ac.uk/funding-ug](http://www.cardiff.ac.uk/funding-ug)

Gwefannau defnyddiol i gael gwybod am ffioedd dysgu a chymorth ariannol:  
Gwefan Prifysgol Caerdydd:

[www.caerdydd.ac.uk/ffioedd](http://www.caerdydd.ac.uk/ffioedd)

Gwefan Canolfan Cymorth Myfyrwyr:  
[www.cardiff.ac.uk/financialsupport](http://www.cardiff.ac.uk/financialsupport)

Cyllid Myfyrwyr Cymru:  
[www.studentfinancewales.co.uk](http://www.studentfinancewales.co.uk)

Cyllid Myfyrwyr Lloegr:  
[www.direct.gov.uk/studentfinance](http://www.direct.gov.uk/studentfinance)

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr:  
[www.slc.co.uk](http://www.slc.co.uk)

**Sut i ddod o hyd i ni**

**Allwedd**

-  Ysgol Cemeg
-  Adeiladau'r Brifysgol a'r GIG
-  Preswylfeydd myfyrwr





## Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn Mynediad 2021, ac roedd yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan: **[www.caerdydd.ac.uk](http://www.caerdydd.ac.uk)** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, cynnwys y wefan fydd yn bwysicach, a hwn sy'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.



Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosiectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Gellir trefnu i'r prosiectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:

Ffôn: **029 2087 4455**

**Ebost: [RobertsL9@cardiff.ac.uk](mailto:RobertsL9@cardiff.ac.uk)**

CARDIFF  
UNIVERSITY

PRIFYSGOL  
CAERDYDD

I gael rhagor o wybodaeth  
am yr Ysgol Cemeg, ewch  
i'n gwefan:



### Cysylltwch â ni

Ysgol Cemeg  
Prifysgol Caerdydd  
Prif Adeilad  
Caerdydd CF10 3AT

Ebost: **chemistry-  
admissions@caerdydd.  
ac.uk**

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4023**

### Cadw mewn cysylltiad

 [cardiffschoolofchemistry](https://www.facebook.com/cardiffschoolofchemistry)

 [@ChemistryCU](https://twitter.com/ChemistryCU)

 [@cardiffchemistry](https://www.instagram.com/cardiffchemistry)